



CWTSH MYRDDIN

Rhifyn – 08.12.2015

Sioe Aeaf Llanfair ym Muallt

Ar Ragfyr y 1af bu disgyblion blwyddyn 10 ac 11 sy'n astudio Amaeth ar wibdaith i'r ffair Aeaf yn Llanfair ym Muallt.



Cawsant ddiwrnod diddorol iawn yn ymweld â'r siediau stoc a chael cyfle i esgus dyfarnu wrth y prif gylch. Mwynhad hefyd oedd cael gweld ac archwilio'r peiriannau newydd sydd ar y farchnad ar hyn o bryd. Efallai un dydd bydd un ohonyn nhw yn llwyddo i ennill gwobr yn y sioe? Cystadleuwyr "Fferm Ffactor" y dyfodol?

Pwyllgor Eco

Longyfarchiadau i'r Pwyllgor Eco am eu llwyddiant yn y gystadleuaeth addurno Coed Nadolig yn y gerddi Botaneg. Enillwyd y wobr Cynladwyedd ganddynt. Dyma'r tro cyntaf erioed i ni fel ysgol ennill gwobr yn y gystadleuaeth. Diolch i'r disgyblion a'r pwyllgor am eu gwaith ac am eu cyfraniadau at lwyddiant yr holl deithiau tramor yn ddiweddar.

Eisteddfod Ddwl Mentrau Iaith Sir Gâr, 2015



Ar ddydd Llun, yr 16eg o Dachwedd yn neuadd y Civic Llandelio aeth blwyddyn 7 i gystadlu'n frwd i geisio ennill y teitl pencampwyr Eisteddfod Ddwl Mentrai Sir Gâr 2015. Bu cystadlu brwd drwy'r dydd yn perfformio'r haca, y sgets, ras bwyta cracers o dan bwysau, ras gyfnewid balwŷns, canu i gerddoriaeth, stori a sain a sawl cystadleuaeth hwyl arall. Er yr holl chwerthin a'r sbri, y miri a'r dathlu, Ysgol Dyffryn Aman daeth i'r brig gyda 96 marc, Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin yn ail gyda 94 marc ac yn drydydd, Ysgol Bro Dinefwr gyda 82 marc. Diolch i'r holl chweched a fu'n sgriptio a hyfforddi dros y misoedd diwethaf, a llongyfarchiadau i bawb.

Adroddiad gan Cara Rogers bl12